

## **CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Anton Sampson, Glenn Swingler, Thomas, Andrew Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Prif Swyddog Cyllid/ Swyddog Adran 151 (RW) a Gweinyddydd y Pwyllgor (SLW)

Ian Trigger - Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

Cynrychiolwyr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru:

Prif Weithredwr – Steve Halsall

Dirprwy Brif Weithredwr – Matthew Redmond

Prif Gomisiynydd – Theodore Joloza

Swyddog Adolygu – Cher Cooke

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Geraint Lloyd-Williams, Peter Scott a/ac Rhys Thomas.

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dim.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

Ar hyn o bryd, rhoddodd y Cynghorydd Arwel Roberts Ddeiseb i'r Cadeirydd yn ymwneud â'r cyflymderau peryglus a'r ffordd ar ran o Highlands Road, Rhuddlan. Roedd y Cynghorydd Roberts yn gobeithio byddai'r Ddeiseb yn sicrhau y byddai cyfyngiadau cyflymder yn cael eu rhoi ar y ffordd. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Ddeiseb yn cael ei phasio i'r Adran berthnasol.

#### **4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2017 a 28 Medi 2017 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu nifer fawr o ddigwyddiadau ond roedd yn canmol yn arbennig y cyngerdd a gynhaliwyd yn Eisteddfod Llangollen a hefyd Gorymdaith Rhyddid Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru, yn Rhuthun. Roedd Ffiwsilwyr Brenhinol Cymru wedi cyflwyno plac coffa i'r Cadeirydd a oedd i'w hongian yn nerbynfa Neuadd y Sir, Rhuthun i bawb ei weld.

**PENDERFYNWYD** *derbyn y rhestr o ymrwymadau dinesig y bu i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu mynychu.*

#### **5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2017.

Dywedodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies nad oedd cofnod o'r bleidlais ar gyfer eitem 6 wedi ei gynnwys yn y cofnodion. Cadarnhawyd bod y cofnod yn darllen "derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol".

Gofynnodd y Cynghorydd Lloyd Davies hefyd pam nad oedd eitem ar wahân ar gyfer "Materion yn Codi" ar y Rhaglen. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democratiaidd fod cywirdeb a'r materion sy'n codi o gofnodion cyfarfodydd blaenorol wedi'u cynnwys dan yr un eitem "Cofnodion".

**PENDERFYNWYD** *cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.*

#### **6 ADOLYGIAD ETHOLIADOL SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democratiaidd yr adroddiad trwy gadarnhau i'r Aelodau fod yr Adolygiad Etholiadol o Sir Ddinbych yn adolygiad hollol ar wahân i'r Adolygiad Seneddol.

Roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) yn cynnal Adolygiadau Etholiadol pob un o 22 o Awdurdodau Lleol Cymru. Roedd yr Adolygiad wedi cychwyn ym mis Ionawr 2017 a byddai'r argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Roedd cynrychiolwyr y Comisiwn yn bresennol i amlinellu Adolygiad Etholiadol Sir Ddinbych.

Bu i gynrychiolwyr o'r Comisiwn gwrdd ag Arweinwyr Grŵp a swyddogion y Cyngor ym mis Medi 2017 i amlinellu cwmpas yr adolygiad ac egluro'r broses i'w defnyddio. Amcan yr Adolygiad Etholiadol oedd ceisio sicrhau bod cymhareb etholwyr llywodraeth leol a nifer yr aelodau yn y Cyngor yr un fath, neu bron yr un fath, ymhob ward etholiadol yn y sir.

Mae rhagamcanion diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif poblogaeth Sir Ddinbych yn 94,691, dwysedd poblogaeth o lai na 2 berson yr hectar a mwy na 40% o'r boblogaeth yn byw mewn aneddiadau llai na 10,000 o bobl. Roedd y ffactorau hynny yn rhoi Sir Ddinbych yng Nghategori 4 a ddylai fod â chymhareb cynghorydd i boblogaeth o 1:2000. Felly, nod maint cyffredinol y cyngor ar gyfer yr adolygiad hwn fyddai 47 aelod.

Ar hyn o bryd, roedd gan Sir Ddinbych 76,292 o etholwyr a 47 o aelodau - cyfartaledd o un cynghorydd i 1,623 o etholwyr. O fewn y cynllun hwn, gall y Comisiwn ystyried amrywio nifer yr aelodau o 47 i 46, neu 48.

Dywedwyd na fyddai'r canlynol yn cael eu hystyried yn ystod yr adolygiad:

- Ffiniau etholaeth Seneddol neu Cynulliad
- Goblygiadau gwleidyddol lleol y cynigion
- Codau post neu gyfeiriadau
- Trosglwyddo wardiau / ardaloedd o un cyngor i'r llall
- Newidiadau i ffiniau:
  - Ardaloedd dalgylch ysgolion
  - Rhanbarthau pleidleisio.

Byddai sylwadau effeithiol yn cael eu barnu ar ansawdd y dystiolaeth a gyflwynwyd. Awgrymodd cynrychiolydd y Comisiwn y gallai aelodau'r Cyngor gynorthwyo trwy gynnig awgrymiadau:

- Yn gynnar yn y broses
- Sy'n ystyried yr holl sir yn gyfartal
- Sy'n cymryd sylw o gysylltiadau cymunedol, ac
- Dilyn y rheolau, y ddeddfwriaeth a'r polisiau comisiynu.

Byddai sylwadau o gefnogaeth yr un mor bwysig â'r rhai a wrthwynebwyd.

Cadarnhawyd y byddai cyfnod ymgynghori 12 wythnos a fyddai'n cychwyn ar 1 Tachwedd 2017 tan 23 Ionawr 2018.

Yn ystod trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mewn ardaloedd o anghydraddoldeb etholiadol, byddai ardaloedd cydraddoldeb etholiadol yn cael eu cynhyrchu. Roedd angen asesu'r ardaloedd yn fanwl. Gallai niferoedd yr Aelodau o fewn y sir amrywio o un neu ddau pe bai'r asesiad yn cynhyrchu ardaloedd o anghydraddoldeb etholiadol.
- Cadarnhawyd bod y Comisiwn Ffiniau'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.
- Unwaith eto, nodwyd nad oedd cymhelliant gwleidyddol yn berthnasol i'r adolygiad.

Cadarnhawyd gan y Swyddog Monitro, yn dilyn y Cyngor Llawn, byddai'r adroddiad yn mynd i Arweinwyr Grwpiau o fewn yr wythnos i ganfod sut yr oeddent yn dymuno gweithio trwy'r adolygiad.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor Llawn yn ystyried y cyflwyniad gan y Comisiwn a bod yr Aelodau'n nodi'r cyflwyniad.

Yn y fan hon, cytunodd y Cadeirydd i newid trefn yr eitemau a nodir yn y Rhaglen.

## **7 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2016/2017**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r aelodau gymeradwyo fersiwn drafft o Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2015/16, yn amodol ar newidiadau y cytunwyd arnynt, er mwyn iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2017.

Gan fod y flwyddyn hon yn nodi diwedd Cynllun Corfforaethol 2012-2017, mae'r Adroddiad hefyd yn rhoi sylwadau ar gynnydd a wnaed dros y Cynllun Corfforaethol a lle bo'n briodol, yn cynnig naratif am sut mae gwaith o'r Cynllun hwn wedi esblygu ac yn datblygu yn ystod y cynllun Corfforaethol nesaf, sy'n cwmpasu tymor y Cyngor 2017-2022.

Roedd yr adroddiad drafft yn cynnwys crynodeb o gynnydd pob blaenoriaeth gorfforaethol, gan danlinellu llwyddiannau neu heriau allweddol a wynebwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn crynhoi perfformiad prosiectau corfforaethol, risgiau corfforaethol, dangosyddion cymaradwy (Dangosyddion Strategol Cenedlaethol), Mesurau Atebolrwydd Perfformiad a chanfyddiadau allweddol gan reoleiddwyr allanol. Yn ychwanegol at hynny, roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gryno ynglŷn â gwaith a wnaed mewn perthynas ag amrywiaeth a chydaddoldeb a Safonau'r Iaith Gymraeg, yn ogystal â gweithgarwch gyda phartneriaid a thrwy gydweithio.

Datblygwyd yr adroddiad drafft gan y Tîm Cynllunio Strategol, wrth ymgynghori â gwasanaethau eraill y cyngor. Darparwyd yr wybodaeth ynglŷn â pherfformiad a oedd wedi'i chynnwys yn y ddogfen gan y gwasanaethau, ac fe'i cafwyd o system rheoli perfformiad Verto. Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Roedd llawer o fuddsoddiad wedi'i wneud mewn ysgolion ac roedd trefniadau monitro yn eu lle o fewn gwasanaethau addysg i sicrhau llwyddiant y buddsoddiad.
- Adroddwyd bod nifer o ysgolion yn Sir Ddinbych mewn diffyg ariannol. Cadarnhawyd bod gan bob ysgol gynllun ar waith i glirio eu diffyg. Bu gostyngiad cenedlaethol yn y canlyniadau oherwydd y newid yn strwythur yr arholiadau. Cynigiodd yr Adran Addysg gwrdd ag unrhyw Aelod a oedd angen gwybodaeth ychwanegol ar y mater hwn.
- Cadarnhawyd bod Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) bellach yn ei le i ddarparu mynediad haws wrth symud ymlaen.
- Roedd adeilad ysgol newydd gyda Safle Aberkinsey newydd yn y Rhyl yn disgwyl cyllid Llywodraeth Cymru. Ni chymerwyd penderfyniad hyd yma gan Lywodraeth Cymru.

- Cadarnhawyd y rhoddwyd sicrwydd na ellid cyflwyno pob prosiect o fewn 5 mlynedd ac yr oedd yr un peth yn wir ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ond byddai'r prosiectau'n cael eu hintegreiddio i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer dilyniant parhaus.

Fe wnaeth yr Aelod Arweiniol dros Les ac Annibyniaeth gynnig ei diolch i'r swyddogion sy'n gysylltiedig â'r gwaith manwl ar gyfer yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol a'r Cynllun Corfforaethol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad a Strategaeth am gyflwyno'r adroddiad. Dywedodd ei bod yn hanfodol bod y momentwm hwnnw'n parhau o'r Cynllun Corfforaethol blaenorol er mwyn sicrhau y byddai perfformiad uchel yn dal i gael ei gyflawni.

***PENDERFYNWYD yn amodol ar unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt, bod yr Aelodau yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft 2016-17 er mwyn ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2017.***

**Ar y pwynt hwn (12.05 p.m.) cafwyd egwyl o 20 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.25 p.m.**

## **8 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2017-2022**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yr adroddiad Cynllun Corfforaethol 2017-2022 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd yn ofyniad statudol bod Awdurdodau Lleol yn cyhoeddi Cynllun Gwella a hefyd Amcanion Lles. Roedd Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2017-2022 yn gwasanaethu'r ddwy swyddogaeth hynny.

Roedd yr addewidion allweddol yr oedd yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo iddynt i'w cyflawni yn y Cynllun yn bwysig oherwydd eu bod naill ai:

- Angen arian cyfalaf / refeniw sylweddol: e.e. ffyrdd ac ysgolion newydd er nad oedd popeth angen arian ychwanegol.
- Angen newid diwylliannol / sefydliadol sylweddol: e.e. y ffordd y mae'r Awdurdod Lleol yn ymwneud â chymunedau, a / neu
- Effeithio ar draws y sir gyfan, e.e. 1000+ o gartrefi ychwanegol.

Cyrhaeddwyd y blaenoriaethau a amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol trwy broses drylwyr a chdir o gasglu a dadansoddi tystiolaeth (Asesiad Lles) ac ymgynghoriad manwl â chymunedau (Sgwrs y Sir).

Amcangyfrifwyd bod cyfanswm cost y Cynllun yn £135 miliwn ond byddai hyn yn newid wrth i'r manylion gael eu datblygu. Roedd eitemau arwyddocaol o fewn y Cynllun, fel y band nesaf o gynigion gwella ysgolion, yn cymryd cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen.

Byddai penderfyniadau cyllidebol yn dod yn fwy anodd yn yr ychydig flynyddoedd nesaf felly byddai'n rhaid i'r Cynllun fod yn ddigon hyblyg i ymateb i heriau ariannol.

Ni fyddai unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud heb i achos busnes clir, fforddiadwy gael ei gytuno ar ôl proses gymeradwyo'r cyngor.

Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Cadarnhawyd y byddai'r Byrddau Rhaglen yn asesu sut fyddai orau i gyflwyno'r Cynllun. Grwpiau ehangach, SIG ac Archwilio i sicrhau bod y materion a godwyd yn cael eu cyflwyno.
- Byddai'r Byrddau Rhaglen yn gyrrff gweithredol sy'n gweithredu penderfyniadau, ac nid yn gwneud penderfyniadau. Byddai'r cyfrifoldeb am lywio gweithrediad yn nwylo'r Aelodau Arweiniol. Ni fyddai'r broses o wneud penderfyniadau yn cael ei newid, byddent yn mynd drwy'r broses arferol trwy'r Cabinet, y Cyngor ac ati.
- Cadarnhawyd bod y Byrddau Rhaglen yn fodel cyflenwi lefel uchel. Rhan o'r rôl o fewn y model fyddai Archwilio, a fyddai'n gallu galw unrhyw eitem i mewn ar unrhyw adeg. O ran yr elfen dai, byddai'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Brian Jones, a oedd yn Aelod Lleol y Rhyl, yn aelod o'r Bwrdd.
- Cadarnhawyd y byddai cludiant bob amser yn faes blaenoriaeth uchel i'r Awdurdod Lleol.
- Roedd glanweithdra priffyrdd hefyd yn bwysig ac roedd yn rhan o'r Cynllun Gwasanaeth Busnes. Cadarnhawyd nad oedd popeth wedi'i grybwyll yn llawn o fewn y Cynllun gan y byddai hynny'n golygu y byddai'r ddogfen yn rhy fawr.
- Cadarnhawyd y byddai 1000 o dai ychwanegol yn cael eu hadeiladu yn y dyfodol, yn ogystal ag aildefnyddio 500 o eiddo gwag. Byddai'r 500 o eiddo gwag yn broses dreigl. Bwriad y Cyngor oedd adeiladu 170 o'r 1000 o dai ynghyd ag elfen tai fforddiadwy a ddarperir gan ddatblygwyr.
- Codwyd buddsoddiad ychwanegol mewn ffyrdd, palmentydd a phontydd. O fewn cymunedau cysylltiedig, bu ardal benodol ynglŷn â ffyrdd a phontydd. Roedd cynnal a chadw'r ffyrdd yn y sir bob amser wedi bod yn flaenoriaeth uchel a gwnaed gwaith gyda'r adnoddau oedd ar gael. Cadarnhawyd, ar y pwynt hwn, y byddai'r mater o gyllid ar gyfer priffyrdd yn cael ei godi gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol.
- Iechyd Meddwl oedd un o'r pwysau ar yr Awdurdod Lleol a'r Sector Iechyd. Cadarnhawyd nad oedd gwasanaethau Iechyd Meddwl uniongyrchol o dan reolaeth yr Awdurdod Lleol. Yn y blynyddoedd i ddod, byddai cyswllt gwell gyda'r Bwrdd Iechyd yn cael ei sefydlu.
- Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid nad oedd yr Awdurdod Lleol yn derbyn cyllid yn uniongyrchol o Ewrop. Roedd Llywodraeth Cymru yn derbyn arian Ewropeaidd a oedd wedyn yn cael ei ddsbarthu. Dywedodd hefyd y byddai'n mynychu cyfarfodydd Grwpiau Ardal Aelodau i fynd i fwy o fanylion am arian Ewropeaidd gan Lywodraeth Cymru pe bai angen.
- Canfuwyd bod pobl ifanc a oedd yn cael canlyniadau arholiadau uchel yn gadael yr ardal a oedd yn achosi problem. Byddai'r Cyngor yn parhau l edrych ar fodel i gadw'r bobl ifanc hyn mewn ardaloedd lleol.
- Codwyd y ffaith bod y gwasanaeth bws wedi'i dynnu'n ôl o Stryd Fawr Dyserth. Gofynnodd y Cynghorydd Lleol, David Williams, am i'r mater gael ei godi fel blaenoriaeth o fewn y flwyddyn nesaf.

### **PENDERFYNWYD:**

- *Yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt, bod yr Aelodau'n cymeradwyo drafft terfynol Cynllun Corfforaethol 2017-2022 i alluogi cyfieithu a chyhoeddi'r ddogfen.*
- *Bod yr Aelodau'n cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaeth.*

## **9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, yr Adroddiad Blynyddol (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Dyma drydydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac mae'n cynnwys y flwyddyn galendr rhwng Ionawr a Rhagfyr 2016 yn unig. Cytunwyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad yn flynyddol i'r Cyngor Llawn i roi gwybod i'r aelodau am dueddiadau, materion yn ymwneud â chydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol ar draws y Sir a gwaith y Pwyllgor wrth godi safonau ymddygiad ar lefel y Sir a hefyd ar lefelau Cyngorau Tref, Dinas a Chymuned.

Prif rôl y Pwyllgor Safonau yw monitro cydymffurfiaid â Chod Ymddygiad yr Aelodau. Roedd pob aelod yn ymwybodol bod eu Cod wedi'i seilio ar (a dylid ei ddarllen ar y cyd â) 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan, ond yng Nghymru roedd 10 egwyddor a amlinellwyd o fewn yr adroddiad.

Yn ystod 2016, roedd gan y Pwyllgor Safonau ddiddordeb arbennig yn yr egwyddor olaf o "Arweinyddiaeth" a oedd yn cefnogi'r cysyniad o arweinwyr cymunedol, yn debyg i'r "Strategaeth Arweinyddiaeth" Swyddogion a ddatblygwyd ar lefel y Sir.

Roedd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys 2 Gynghorydd Sir, 1 Aelod o Gyngor Cymuned a 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig). Nid oedd rhan fwyaf o'r Aelodau yn cael eu hethol, ond yn cael eu recriwtio gan aelodau o'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Safonau yng Nghymru.

Ar hyn o bryd roedd angen dau aelod newydd, un fel Aelod Annibynnol, roedd Paula White wedi ymddeol ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon, ac un yn lle'r Cynghorydd Cymuned David Jones. Yn y fan hon, mynegodd Mr Ian Trigger ei ddiolchgarwch i'r ddau Aelod a oedd yn ymddeol am eu gwaith teyrngar a chaled dros y blynyddoedd.

Roedd y Cynghorwyr Sir, Andrew Thomas a Paul Penlington, wedi dod yn lle'r Cynghorwyr Sir blaenorol, Barry Mellor a Meirick Lloyd Davies. Unwaith eto, mynegodd Mr Ian Trigger ei ddiolch i'r Cynghorwyr Mellor a Davies am eu gwaith ar y Pwyllgor.

Diolchodd Mr Trigger i'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro am eu gwaith caled ar gyfer y Pwyllgor Safonau ac am drefnu a chynnal digwyddiadau hyfforddi hanfodol.

**PENDERFYNWYD:**

- *Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, a*
- *Bod yr Aelodau yn nodi nad oedd angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer dibenion yr adroddiad hwn.*

**10 RECRIWTIO PANEL YMGYNGHOROL Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad Panel Ymgynghorol Recriwtio y Pwyllgor Safonau (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Roedd dwy swydd wag y byddai angen recriwtio ar eu cyfer mewn perthynas â Phwyllgor Safonau'r Cyngor. Un ar gyfer aelod annibynnol ac un mewn perthynas ag aelod "cymuned". Roedd proses recriwtio ar y gweill a bellach roedd yn ofynnol i'r Cyngor wneud yr enwebiadau i'r Panel Ymgynghorol Recriwtio.

Roedd angen penderfyniad gan y Cyngor Llawn i gytuno ar 3 aelod i eistedd ar Banel Ymgynghorol Pwyllgor Safonau'r Cyngor am y tymor llawn; felly pe bai unrhyw swyddi gwag pellach, roedd gan y Cyngor Banel Ymgynghorol wedi'i sefydlu.

Cynigodd y Cynghorydd Martyn Holland y Cynghorwyr Gareth Lloyd Davies a Richard Mainon.

Cynigiodd y Cynghorydd Peter Evans y Cynghorydd Mark Young.

**PENDERFYNWYD:**

- *Enwebu'r Cynghorwyr Gareth Lloyd Davies, Richard Mainon a Mark Young a'u penodi i Banel Ymgynghorol y Pwyllgor Safonau nes bydd tymor y Cyngor hwn yn dod i ben*
- *Bod y Cyngor yn cadarnhau nad oes angen Asesiad Lles.*

**11 POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (IDR) DIWYGIEDIG 2017 /2018**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol y Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) Diwygiedig (2017/18).

Yn dilyn adolygiad o Bolisi IDR cyfredol y Cyngor, nodwyd bod newid y dull ar gyfer gwneud yr IDR yn gyfle i arbed arian sylweddol. Roedd y newid arfaethedig hefyd yn cyflwyno dull mwy teg i ddosrannu'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf.

**PENDERFYNWYD:**

- *Bod yr Aelodau yn ystyried a chymeradwyo'r diwygiadau canlynol i'r Polisi IDR ar gyfer Polisi IDR ar gyfer 2017/18.*
  - *Mae hyn yn newid o Opsiwn 1 (Dull Rheoleiddiol) a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 14 Chwefror 2017.*
  - *Mae hyn hefyd yn newid o Opsiwn 1.*
  - *Polisi ar gyfer 2017/18 - Opsiwn 3 (Dull Bywyd Asedau - llinell syth) i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo IDR ar yr holl wariant cyfalaf a ariennir o fenthycy heb gymorth. Mae hyn yn barhad o'r polisi a gymeradwywyd.*



- *Gofynnir i'r Aelodau nodi'r defnydd a gytunwyd o'r arbediad arian parod yn 2017/18 a'r arbedion cyllideb rheolaidd o 2018/19 fel y'u nodir yn fersiwn ddiweddaraf y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac a grynhoir isod: -*
  - *Arbedion Ariannol 2017/18 - argymhellir fod yr arbedion ariannol o £1.861 miliwn yn cael eu gosod yng Nghronfa Lliniaru'r Gyllideb er mwyn cynorthwyo i liniaru effeithiau'r gostyngiadau yn y gyllideb yn 2018/19*
  - *Arbedion parhaus o 2018/19 – argymhellir gostwng y gyllideb ariannu cyfalaf o £1.861 miliwn fel rhan o'r strategaeth i gydbwysu cyllideb 2018/19.*

## **12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd yn flaenorol).

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai sesiynau Briffio Cyllideb yn cael eu cynnal ar 16 Tachwedd 2017 a 22 Tachwedd 2017.

***PENDERFYNWYD*** – *cymradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.10 p.m.**